Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.wales.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

# Gwneud cais am Gyllid yr UE – Rhan 1: Y Cam Cyn Cynllunio

# Cyswllt Cyntaf â WEFO a Chwblhau Tabl Rhesymeg y Gweithrediad

Fersiwn: 5.0

Dyddiad: Ionawr 2018

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## 1. Diben a Chefndir y Canllawiau

1.1 Y ddogfen hon yw'r gyntaf mewn cyfres o ddwy ddogfen ganllaw i ddarpar fuddiolwyr Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020.

1.2 Mae'r canllawiau'n cwmpasu'r camau cyswllt cynnar â chynnig a'r broses o fynd drwy'r Cam Cyn Cynllunio (a elwir am ei fod yn dod cyn gwahoddiad i ddechrau cwblhau cynllun busnes).

1.3 Ar ôl i WEFO benderfynu gwahodd cynnig i'r Cam Cynllunio Busnes ar WEFO Ar-lein, dylid defnyddio'r ail ran o'r gyfres hon o ganllawiau (‘Gwneud cais am Gyllid yr UE – Rhan 2: Y Cam Cynllunio Busnes’).

## 2. Cyswllt Cychwynnol

2.1 Gellir gwneud cyswllt cychwynnol neu ymholiadau drwy Linell Gymorth Busnes Cymru (0845 010 3355) neu drwy e-bostio: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk.

2.2 Yna, bydd WEFO yn ymateb i ymholiadau a, lle y bo'n briodol, yn trefnu cyfarfod â darpar fuddiolwyr. Yna, cynhelir trafodaethau ar gynaliadwyedd y cynnig ar gyfer cyllid yr UE. Caiff cyswllt arweiniol WEFO ei benodi i gysylltu â'r buddiolwr os bydd y cynnig yn cael ei ddatblygu ymhellach.

## 3. Tabl Rhesymeg y Gweithrediad

3.1. Yn dilyn y trafodaethau cychwynnol, gellir gwahodd darpar fuddiolwyr i gwblhau Tabl Rhesymeg y Gweithrediad (OLT) a fydd yn profi addasrwydd y cynnig ar gyfer cyllid yr UE.

3.2. Rhoddir dwy enghraifft o Dabl Rhesymeg y Gweithrediad at ddibenion enghreifftiol, gydag enghraifft barod ERDF ac enghraifft barod ESF wedi'u cynnwys yn y drefn honno yn Atodiadau A a B. Mae OLT yn gyfle i WEFO archwilio'r cynnig ymhellach. Noder nad yw cwblhau OLT yn arwain yn awtomatig at wahodd y cynnig i broses cynllunio busnes ffurfiol WEFO.

3.3. Er mwyn cwblhau OLT yn effeithiol, dylai darpar fuddiolwyr sicrhau eu bod wedi darllen a deall dogfennau allweddol penodol sydd ar gael ar dudalennau WEFO ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dogfen berthnasol y Rhaglen Weithredol (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a/neu Ddwyrain Cymru);
- Y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (EPF) a'r canllawiau cysylltiedig. (http://llyw.cymru/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/?lang=cy)

3.4. Nod OLT yw rhoi dealltwriaeth glir o beth yn union mae gweithrediad arfaethedig yn bwriadu ei gyflawni yn erbyn rhaglenni'r UE a sut y caiff hyn ei gyflawni. Bydd yn ofynnol i fuddiolwyr gwblhau templed OLT ar gyfer pob cynnig. Fodd bynnag, os mai'r bwriad yw cyflawni gweithgaredd Cymru gyfan, mae'n bosibl mai dim ond un OLT y bydd angen ei gwblhau.

3.5. Mae templed OLT yn cynnwys:

- Blwch testun gwybodaeth sylfaenol, lle y gellir nodi'r teitl a manylion y crynodeb, Rhaglen a Blaenoriaeth, yr ardal weithredol ddaearyddol, ynghyd ag amcangyfrif o'r gost, os yw ar gael, a'r hyd.

- **Tabl 1:** Tabl sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr brofi cyswllt rhesymegol rhwng:
    - yr amcan penodol a'r canlyniad terfynol a geisir drwy'r gweithrediad arfaethedig a;
    - sut y caiff y rhain eu cyflawni;
    - y cyfraniad posibl tuag at ddangosyddion allbwn rhaglenni.

  Bydd WEFO yn defnyddio'r tabl hwn er mwyn pwyso a mesur a oes gan y gweithrediad arfaethedig amcan clir a dealltwriaeth glir o sut y byddai hwnnw'n cael ei gyflawni.

- **Tabl 2:** Tabl sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr brofi cyswllt rhesymegol rhwng:
    - y sector neu'r grwpiau a dargedir;
    - y rhwystrau penodol a wynebir gan y grwpiau hynny;
    - yr union gamau gweithredu y byddai'r gweithrediad yn eu cymryd er mwyn goresgyn y rhwystrau hynny;
    - sut y byddai'r gweithrediad arfaethedig yn cysoni'r ysgogwyr galw a restrir yn yr EPF ac yn ychwanegu gwerth atynt.

  Bydd WEFO yn defnyddio'r tabl hwn er mwyn pwyso a mesur a yw'r gweithrediad arfaethedig yn deall yr angen ac yn targedu'r y grŵp/sector perthnasol, a sut y byddai'n cysoni'n effeithiol â'r ysgogwyr galw a'r ddarpariaeth bresennol dan yr EPF.

3.6 Pwyntiau allweddol i gwblhau OLT

3.6.1 Bydd cyswllt arweiniol WEFO yn cefnogi'r darpar fuddiolwr i gwblhau OLT.

3.6.2 Yr allwedd i'w gwblhau'n effeithiol fydd rhoi atebion cryno ar ffurf pwyntiau bwled sy'n ateb yr awgrymiadau yn y templed yn uniongyrchol, yn hytrach nag ymatebion cyffredinol.

3.6.3 Er na ddylid adolygu cynigion o ran y cyflawniad yn erbyn dangosyddion yn unig, un o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer cynnydd fydd y cyfraniad posibl tuag at y dangosyddion canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol perthnasol. Mae'n fwy tebygol y bydd cynnig sy'n rhoi dilyniant rhesymegol sy'n amlinellu'r canlyniad terfynol, y gweithgareddau angenrheidiol a'r allbynnau realistig sydd eu hangen er mwyn eu cyrraedd yn cael ei ddatblygu nag un sy'n ceisio darparu allbynnau afrealistig nad ydynt yn cyd-fynd â'r canlyniad a'r gweithgareddau a nodwyd.

3.6.4 Er nad oes cyfeiriad penodol at y Themâu Trawsbynciol (ThD) yn yr OLT, gwahoddir darpar fuddiolwyr i archwilio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Chyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi a'r potensial i gyfrannu at hyn. Mae hyn yn cynnwys y potensial i gyfrannu at unrhyw ddangosydd allbwn a allai gyfrannu'n gadarnhaol at y ThD.

3.6.5 Hefyd, mae angen ymdrin â'r potensial i'r gweithgaredd arfaethedig ddyblygu'r ddarpariaeth bresennol.

## 4. Cwblhau'r Cam Cyn Cynllunio

4.1 Bydd y Cam Cyn Cynllunio yn gorffen gyda phenderfyniad WEFO ynghylch p'un a ddylid gwahodd y gweithrediad arfaethedig i'r Cam Cynllunio Busnes. Bydd cyswllt arweiniol WEFO yn rhoi gwybod i'r darpar fuddiolwr am y penderfyniad ac yn rhoi adborth lle y bo'n briodol.

4.2 Ar wahoddiad i ddechrau ar y Cam Cynllunio Busnes, dylai'r darpar fuddiolwr gyfeirio at y ddogfen ganllaw gysylltiedig; 'Gwneud cais am Gyllid yr UE – Rhan 2: Y Cam Cynllunio Busnes'.

## 5. Atal Twyll

5.1 Nodwch y gallwn rannu'r data a roddwch i ni gydag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Er mwyn inni gydymffurfio ag egwyddor prosesu teg diogelu data, mae angen i ni roi gwybod i chi sut y gall eich data personol gael ei ddefnyddio.

5.2 Efallai bydd y gwybodaeth a gasglwn gennych chi cael ei rannu gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei ddefnyddio i hatal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio'ch hunaniaeth. Os canfyddir twyll, gellid gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i rhagor o fanylion am sut y gallwn ni defnyddio'r wybodaeth hon a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, trwy gysylltu â Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

5.3 Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar http://gov.wales/docs/caecd/publications/171113-fair-process-cy.pdf

5.4 Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â WEFO

**TABL RHESYMEG Y GWEITHREDIAD (OLT) AR GYFER GWEITHGAREDD ERDF ARFAETHEDIG**

***NODER – Nid yw'r templed hwn yn gyfystyr â chynllun busnes na ffurflen gais. Nod y tabl rhesymeg hwn yw dangos potensial y cynnig i gyflawni'n effeithiol yn erbyn rhaglenni'r UE cyn symud ymlaen o bosibl i'r Cam Cynllunio Busnes.**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl Arfaethedig:** | | | | | **Rhaglen/Blaenoriaeth:** | |
| **Disgrifiad Cryno (hyd at 50 o eiriau):** | | | | | **Yr ardal ddaearyddol lle byddai'r gweithgaredd arfaethedig yn cael ei gynnal:** | |
| **Cost amcangyfrifedig:** | **Cyfanswm y gost:** | | **Cost y grant:** | | | |

**Tabl 1**

| **Pa Amcan Penodol yn y rhaglenni fyddai'r cynnig yn cyflawni yn ei erbyn?** | **Pa newid fydd y cynnig yn ceisio ei gyflawni?** | **Sut y bydd y cynnig yn cyflawni'r newidiadau a geisir?** | **Dangosyddion a thargedau allbynnau a chanlyniadau rhaglen** |
|---|---|---|---|
| *Rhestrwch yr Amcan Penodol sy'n berthnasol i'r gweithrediad arfaethedig. Dylai'r cynigion ganolbwyntio ar gyfrannu tuag at y dangosyddion canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir mwy nag un amcan penodol.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *(3.1) Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni adnewyddadwy a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais a, thrwy hynny, sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni'r môr* | *Yn erbyn yr Amcan Penodol a restrwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch <u>yn gryno</u> y canlyniad(au) terfynol y mae'r cynnig yn ceisio ei gyflawni/eu cyflawni, gan gynnwys sut y bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y <u>targed canlyniadau</u> ar gyfer yr Amcan Penodol hwnnw.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Cynhyrchu a gosod dyfais ar raddfa lawn sy'n cynhyrchu ynni'r môr y mae ei pherfformiad wedi'i brofi ac y profwyd ei bod yn fasnachol hyfyw.*<br>• *Nod y gweithrediad hwn yw sicrhau 5MW o gapasiti ychwanegol ar gyfer ynni'r tonnau a'r llanw – gan gyfrannu 25% o darged y rhaglen, sef 20MW o gapasiti ychwanegol wedi'i osod yn ynni adnewyddadwy'r tonnau a'r llanw.* | *Ar gyfer <u>pob</u> canlyniad terfynol penodol a nodwyd yn y golofn flaenorol, disgrifiwch, drwy gyfres o <u>ddisgrifiadau cryno ar ffurf pwyntiau bwled</u> o weithgaredd, <u>sut</u> y caiff hyn ei gyflawni.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Nodi safleoedd ymgeisiol addas ar gyfer gosod dyfeisiau drwy lif dŵr llanw ac ymchwil amgylcheddol;*<br>• *Cwblhau asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar gyfer safleoedd ymgeisiol, gydag opsiwn a ffefrir wedi'i nodi o ddadansoddiad llawn o'r buddiannau ac effeithiau posibl;*<br>• *Ceir yr holl ganiatadau, trwyddedau a chaniatadau cynllunio sy'n ymwneud â gosod y ddyfais, trosglwyddo ei hynni a'i monitro'n barhaus;*<br>• *Sefydlu'r cwmni er mwyn cofrestru'r holl fuddiannau sy'n ymwneud â'r ddyfais, datblygu'r dyluniad a gweithgynhyrchu'r ddyfais a'r datblygiad parhaus;*<br>• *Cytuno ar y llwybr a'r deunyddiau penodol sydd eu hangen er mwyn trosglwyddo'r ynni ar y tir;*<br>• *Caffael cyfleusterau ar gyfer gweithgynhyrchu'r ddyfais, manylion llawn am amserlenni ac unrhyw waith caffael i ddilyn;* | *Nodwch pa <u>ddangosyddion allbynnau a chanlyniadau rhaglen</u> a ddefnyddir er mwyn cofnodi'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd o dan y golofn flaenorol. Os oes modd, nodwch gyfraniad dros dro tuag at y targedau perthnasol.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Capasiti ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy*<br>• *Cynlluniau paratoi safle Cymorth Ynni*<br>• *Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd* |

**Tabl 2**

| **Grŵp/Grwpiau a dargedwyd** | **Nodi'r rhwystrau** | **Goresgyn y rhwystrau** | **Sut y mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r cyd-destun buddsoddi ehangach fel y'i nodir yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (EPF)?** |
|---|---|---|---|
| *Nodwch y grŵp/grwpiau targed penodol (cyfranogwyr a/neu BBaChau/sectorau) y byddai'r cynnig yn ceisio ei gefnogi/eu cefnogi.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Sector ynni'r môr.* | *Ar gyfer pob grŵp targed a nodwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch y rhwystrau penodol a wynebir sy'n ffurfio'r angen am y cynnig.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Mae'r dechnoleg a ddefnyddir gyda'r ddyfais wedi'i dilysu'n ddamcaniaethol ond, hyd yn hyn, nid yw wedi'i phrofi drwy ei gosod yn ymarferol. Mae buddsoddiad sylweddol o'r sector preifat ar gael, ond ni fydd yn dechrau nes i hyfywedd masnachol y dechnoleg gael ei brofi.* | *Ar gyfer pob rhwystr a nodwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch sut y byddai'r cynnig yn rhoi cymorth effeithiol i'r grŵp/grwpiau targed.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Byddai'r gweithrediad arfaethedig (drwy'r gweithgareddau penodol a ddisgrifiwyd yn y golofn uchod) yn galluogi perfformiad y ddyfais i gael ei brofi a phrofi ei bod yn fasnachol hyfyw, a fyddai'n datgloi buddsoddiad sylweddol posibl o'r sector preifat.* | *O'r 'cyfleoedd economaidd' a nodwyd yn yr EPF (thematig a/neu ranbarthol), rhestrwch y rhai y byddai'r cynnig yn cyflawni yn eu herbyn.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Cyfle Thematig: Ynni*<br>• *Rhanbarthol: Canolbarth a De-ddwyrain Cymru*<br><br>*Ar gyfer pob cyfle economaidd a nodwyd, disgrifiwch sut y bydd y cynnig yn ymateb i'r* <u>*ysgogwyr galw*</u> *presennol, yn ogystal â sut y byddai'n ychwanegu gwerth at y buddsoddiad presennol neu arfaethedig, ac nid yn ei ddyblygu.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Byddai'r cynnig yn ymateb yn uniongyrchol i'r ysgogwr galw a nodwyd, sef rowndiau prydlesu ystad y goron ar gyfer technoleg forol ar y môr.*<br>• *Byddai'r cynnig hefyd yn cyd-fynd ag ysgogwyr galw presennol megis y fenter Ynys Ynni ar Ynys Môn drwy gyfrannu at gydgrynhoi arbenigedd ynni adnewyddadwy'n rhanbarthol.*<br>• *Mae'r cynnig yn rhan o'r cynllun strategol ar gyfer yr Ardal Fenter a nodwyd a gall ddangos cymeradwyaeth gan fuddsoddwyr allweddol a nodwyd yn yr EPF a'r tu hwnt* |

**TABL RHESYMEG Y GWEITHREDIAD (OLT) AR GYFER GWEITHREDIAD ESF ARFAETHEDIG**

***NODER – Nid yw'r templed hwn yn gyfystyr â chynllun busnes na ffurflen gais. Nod y tabl rhesymeg hwn yw dangos potensial y cynnig i gyflawni'n effeithiol yn erbyn rhaglenni'r UE cyn symud ymlaen o bosibl i'r Cam Cynllunio Busnes.**

<table>
<tr><td>Teitl Arfaethedig:</td><td colspan="4"></td><td>Rhaglen/Blaenoriaeth:</td><td></td></tr>
<tr><td>Disgrifiad Cryno (hyd at 50 o eiriau):</td><td colspan="4"></td><td>Yr ardal ddaearyddol lle byddai'r gweithgaredd arfaethedig yn cael ei gynnal:</td><td></td></tr>
<tr><td>Cost amcangyfrifedig:</td><td>Cyfanswm y gost:</td><td></td><td>Cost y grant:</td><td></td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

**Tabl 1**

| **Pa Amcan Penodol yn y rhaglenni fyddai'r cynnig yn cyflawni yn ei erbyn?** | **Pa newid fydd y cynnig yn ceisio ei gyflawni?** | **Sut y bydd y cynnig yn cyflawni'r newidiadau a geisir?** | **Dangosyddion a thargedau allbynnau a chanlyniadau rhaglen** |
|---|---|---|---|
| *Rhestrwch yr Amcan Penodol sy'n berthnasol i'r cynnig. Dylai cynigion ganolbwyntio ar gyfrannu at y dangosyddion canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir mwy nag un amcan penodol.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *(2.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 2.3 Dwyrain Cymru)* Lleihau'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod, lleihau anghydraddoldebau rhwng y rhywiau a chefnogi menywod i ddatblygu gyrfa yn y gweithle. | *Yn erbyn yr Amcan Penodol a restrwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch yn gryno y canlyniad(au) terfynol y mae'r cynnig yn ceisio ei gyflawni/eu cyflawni, gan gynnwys sut y bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targed canlyniadau ar gyfer yr Amcan Penodol hwnnw.*<br>*Er enghraifft:*<br>*Lleihau anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ymhlith menywod*<br>• *Cyfrannu at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru (targedu gostyngiad – yn genedlaethol neu yn ôl rhanbarth)*<br>• *Cefnogi'r cynnydd yn lefelau'r menywod mewn swyddi uwch-reolwyr (targed)*<br>• *Cefnogi'r cynnydd mewn cyfranogiad menywod mewn meysydd gwaith anhraddodiadol (llinell sylfaen a thargedau)* | *Ar gyfer pob canlyniad terfynol penodol a nodwyd yn y golofn flaenorol, disgrifiwch, drwy gyfres o ddisgrifiadau cryno ar ffurf pwyntiau bwled o weithgaredd, sut y caiff hyn ei gyflawni.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Mae cyflawni cymorth sgiliau a mentora i fenywod mewn cyflogaeth sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n dymuno datblygu gyrfa, sy'n dychwelyd ar ôl seibiant gyrfa, sy'n ystyried eu bod wedi'u tangyflogi – naill ai o ran sgiliau neu oriau*<br>• *Cyflawni gweithgareddau i gyflogwyr sy'n canolbwyntio ar arferion gwaith modern i gefnogi hyrwyddo rôl menywod yn y gweithle, mwy o effeithiolrwydd ymhlith cyflogeion a chyflawni potensial a chefnogi datblygiad y gweithlu*<br>• *Cynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb rhywiol a mentrau gweithredu cadarnhaol, gan dynnu sylw at gamau allweddol pan all canfyddiadau a dewisiadau ystrydebol y rhywiau effeithio ar fenywod a dynion, gan ddylanwadu ar ddewisiadau a chanlyniadau gyrfa yn y dyfodol.* | Nodwch pa ddangosyddion allbynnau a chanlyniadau rhaglen y cânt eu defnyddio er mwyn cofnodi'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd o dan y golofn flaenorol. *Os oes modd, nodwch gyfraniad dros dro tuag at y targedau perthnasol.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster pan maent yn gadael*<br>• *busnesau a gefnogir sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro* |

**Tabl 2**

| **Grŵp/Grwpiau a dargedwyd** | **Nodi'r rhwystrau** | **Goresgyn y rhwystrau** | **Sut y mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r cyd-destun buddsoddi ehangach fel y'i nodir yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (EPF)?** |
|---|---|---|---|
| *Nodwch y grŵp/grwpiau targed penodol (cyfranogwyr a/neu BBaChau/sectorau) y byddai'r cynnig yn ceisio ei gefnogi/eu cefnogi.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Y gweithlu menywod yn gyffredinol â rhywfaint o ffocws ychwanegol ar y canlynol;*<br>• *Rheolwyr canol.*<br>• *Y rhai sy'n dychwelyd o seibiant gyrfa*<br>• Y rhai heb lawer o sgiliau | *Ar gyfer pob grŵp targed a nodwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch y rhwystrau penodol a wynebir sy'n ffurfio'r angen am y cynnig.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Lefelau sgiliau isel yn rhwystr i ddatblygu gyrfa yn y farchnad lafur.*<br>• *Diffyg cyswllt â'r farchnad lafur a bwlch mewn gwybodaeth oherwydd seibiant, angen diweddaru sgiliau.*<br>• *Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd a diffyg sgiliau trosglwyddadwy.*<br>• *Rhwystrau posibl i gydraddoldeb cyflogaeth ymhlith cyflogwyr a diffyg hyblygrwydd ar gyfer trefniadau gweithio.* | *Ar gyfer pob rhwystr a nodwyd o dan y golofn flaenorol, disgrifiwch sut y byddai'r cynnig yn rhoi cymorth effeithiol i'r grŵp/grwpiau targed.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Rhoi cymorth dan arweiniad galw er mwyn uwchsgilio cyflogeion benywaidd heb lawer o sgiliau ac ar gyfer hyfforddiant arwain a rheoli*<br>• *Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb rhywiol ymhlith cyflogwyr a hyrwyddo trefniadau gweithio hyblyg*<br>• *Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa, yn enwedig mewn sectorau anhraddodiadol a hyrwyddo sgiliau trosglwyddadwy* | *O'r 'cyfleoedd economaidd' a nodwyd yn yr EPF (thematig a/neu ranbarthol), rhestrwch y rhai y byddai'r cynnig yn cyflawni yn eu herbyn.*<br>*Er enghraifft:*<br>• *Gwaith targedu penodol tuag at y sectorau twf hynny a nodwyd lle mae menywod wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu ac mewn swyddi uwch-reolwyr.*<br>**Dangos nad yw'r gweithgarwch arfaethedig eisoes yn cael ei wneud mewn gweithrediad/prosiect arall.** |